



% y gweithgaredd sy'n berthnasol i'r Sector Garddwriaeth:

23% O WEITHGAREDD GARDDWRIAETH MAE **307** O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU gyda Cyswllt Ffermio'n rhan o'r sector Garddwriaeth

Grwpiau Trafod

CYNHALIWDYD **2** GYFARFOD GRŴP TRAFOD YN YMWNEUD Â'R SECTOR gyda **17** O FNYCHWYR

Rhwydwaith Arddangos

Henbant: Sefydlu cynllun amaeth-goedwigaeth ac amaethyddiaeth adfywiol

Roedd y prosiect yn Henbant yn cynnwys dull bio-ddwys ac ecolegol heb unrhyw waith trin tir, gan ddefnyddio egwyddorion paramaethu i sefydlu tyfu aml-haenog. Mae dull amaeth-goedwigaeth o gynhyrchu bwyd yn cynnig manteision defnyddio tir yn gynaliadwy, ac mae hefyd yn cyfrannu at iechyd anifeiliaid a dal a storio carbon. Gall coed addasu tymheredd a chyflymder y gwynt, a bydd hynny'n darparu lloches a phorthiant ac yn fuddiol o safbwynt lles anifeiliaid. Credir bod gan systemau amaeth-goedwigaeth fwy o botensial i ddal a storio carbon oherwydd eu gallu canfyddadwy i ddal a storio mwy o olau, maetholion a dŵr a gwneud mwy o ddefnydd ohonynt, o gymharu â systemau ble tyfir yn rhywogaeth yn unig.

Rhannwyd y prif borfeydd (8 ha) yn 30 uned pori dyddiol ar wahân, a rhesi o goed yn eu gwahanu. Roedd rhai o'r coed yn rhywogaethau prenaidd, blasus iawn y gall gwartheg eu brigbori (helygen, gwemen, pisgwydden, collen, ysgawen) ac roedd rhai yn lonydd o goed ffrwythau (coed afalau, ceirios, gellyg, eirin, cyrens duon, aeron tagu coch, rhafnwydden y môr, mafon) a rhywogaethau ategol (gwemen, poplysen Lombardi, ceiriosen yr adar, cyfardwf, oleaster, bwdleia, banadl). Gwnaethom hefyd sefydlu gardd farchnad newydd, ecolegol, ddwys heb drin y tir, gyda 1,000m² o le tyfu. Roedd yr ardd yn cynnwys hyd at 100 o welyau parhaol hir 70cm o led, 10m o hyd, gyda llwybrau sglodion pren. Ym mhob degfed rhes mae rhes o goed ffrwythau a phlanhigion lluosflwydd yn rhannu'r ardd. Cafodd y cynnyrch ei werthu gan ddilyn model amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned (CSA).



Ffigwr 1. Rhes o goed ffrwythau pen coed, yn cynnwys coed afalau a chyrains



Ffigwr 2. Ardal yr ardd farchnad ym mis Gorffennaf 2020, yn dangos y gwelyau wedi'u sefydlu a'u plannu afalau a chyrains

Allbynnau allweddol

- Bydd sefydlu system amaeth goedwigaeth yn cynnig buddion o ran refeniw (gallai hyn fod dros £10,000 y flwyddyn o resi o goed ffrwythau aeddfed), cysgod, rheoli'r borfa, a chyfoethogi'r ecosystem.
- Llwyddodd yr ardd farchnad i werthu 27 blwch yr wythnos dros 25 wythnos gan greu incwm o £8,100. Bydd ehangu i werthu 40 blwch yr wythnos ar gyfer y tymor nesaf yn cynhyrchu refeniw o £14,400 o'r ardd, sy'n ddigon i gefnogi un person gyda photensial gwirioneddol i ehangu ymhellach.
- Gall gardd farchnad ddarparu incwm dros yr isafswm cyflog ar ardal o dir a fyddai'n cael ei ystyried yn rhy fach ar y rhan fwyaf o ffermydd.
- Cafwyd buddion cymdeithasol ac iechyd meddwl trwy gynnwys y gymuned mewn dyddiau plannu coed, gwirfoddolwyr yn helpu yn yr ardd a chwsmeriaid y cynllun blychau'n ymweld yn wythnosol.

Cliciwch yma i ddarllen adolygiad terfynol o'r prosiect.

Cae Derw: Arallgyfeirio i arddwriaeth a sefydlu mentrau casglu eich hun

Bydd cymorth yn cael ei ddarparu trwy Wasanaeth Mentora a Chynghori Cyswllt Ffermio i ddatblygu cae sy'n cael ei rentu ger y brif ffordd i greu menter dyfu. Y nod yw defnyddio dull o beidio â phalu'r tir er mwyn sefydlu gardd farchnad ecolegol a hyfyw'n ariannol a fydd yn cynnwys ffrwythau, llysiau, cnydau salad a blodau. Yn ogystal, bydd nifer fechan o goed ffrwythau yn tyfu gan ddefnyddio egwyddorion amaeth goedwigaeth, a fydd yn gweithredu fel cysgod ac yn ychwanegu gwerth. Bydd ardal pigo pwmpenni hefyd yn cael ei gynnwys.

Y prif amcan yw tyfu mor naturiol ac mor ecolegol â phosibl, gan ddefnyddio adnoddau lleol megis compost o Ruthun a thail buarth o'r fferm drws nesaf. Yn ogystal ag annog menter lle bydd cwsmeriaid yn pigo ffrwythau eu hunain i hyrwyddo cynhyrchu bwyd lleol, y bwriad yw gwerthu'n uniongyrchol i'r gymuned leol drwy gasgliadau bocsys llysiau, drwy siop y pentref, y cigydd a'r swyddfa bost. Mae ffermio heb balu yn ddull sy'n diogelu strwythur a ffawna'r pridd trwy geisio ag amharu cyn lleied â phosibl ar fywyd y pridd, gan alluogi micro-organebau, pryfed genwair a ffwng i ffynnu.

Bydd gwllân hefyd yn cael ei dreialu fel dull o gadw chwyn i lawr.

Nod y prosiect ar fferm Cae Derw yw gwneud y defnydd gorau posibl o'r tir trwy gyflwyno nifer o wahanol fentrau, gan leihau'r risg ariannol, ac ychwanegu gwerth lle bo'n bosibl, ynghyd â datblygu dull aml-haen a chynaliadwy.



Ffigwr 3. Bylbiau yn yr ardal paled blodau i'w torri ym mis Ionawr 2021

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- MAPIO PRIDD ER MWYN RHEOLI TIR YN FANWL GYWIR
- BIO-OLOG AR GYFER NEWID HINSAWDD: A YW'N STRATEGAETH HYFYW?
- STRATEGAETHAU A THECHNOLEGAU ER MWYN GWELLA IECHYD A DIOGELWCH AR Y FFERM
- ACWAPONEG: EI CHYFLWR PRENNOL A'I RHAGOLYCON
- OPSIYNAU BIOLEGOL AR GYFER RHEOLI PLÂU

Gweminarau

CYNHALIWDYD **66** GWEMINAR GYDA THEMÂU GARDDWRIAETH gyda **4987** O WYLWYR

Enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd:

Cynllunio rheoli maetholion mewn garddwriaeth



Datblygu menter casglu eich hun



Opsiynau tyfu er mwyn cynhyrchu mwy o incwm ar y fferm



Gwella gwybodaeth a phrofiad o ddulliau rheoli plâu integredig ar ffrwythau meddal yng Nghymru gan ddefnyddio llai o blaladdwyr ac atal gwastraff

Arweiniodd tymereddau uchel yn 2020 at gynnydd sylweddol mewn niferoedd plâu ar y mefus cyn y byddai'r gweithgareddau rheoli plâu integredig wedi cael eu cyflwyno fel arfer, ond llwyddodd y ffermwyr i weithredu'n sydyn trwy ryddhau gwenyn meirch parasitoid. Mae cynlluniau ar y gweill i ddechrau'n gynt yn 2021 os oes angen.

Gan weithio gyda'r ymgynghorydd Chris Creed o ADAS, mae'r grŵp wedi datblygu adnodd asesu i'w cynorthwyo i fonitro niferoedd y plâu sy'n bresennol a deall y trothwy sy'n sbarduno'r angen ar gyfer dulliau rheoli. Gweler ffigur 6 am enghraifft o sut maen nhw'n mynd ati i gyfrif pryfed gleision.

Asesiad I – Niferoedd o bryfed

Enghraifft o bryfed glas yn cysgodi dan y dail.



Ar gyfer yr asesiad hwn dewiswch 4 o ddail ifanc (llai) ar blanhigion gan mai dyma'r ardal sydd orau gan bryfed glas. Amcangyfrifwch y nifer o bryfed glas ar y ddeilen honno gan ddefnyddio'r system isod, nid yw'n cael ei argymhell i chi eu cyfrif bob yn un gan y bydd hyn

yn cymryd llawer o amser. Yn nodweddiadol bydd y pryfed glas dan y ddeilen, ond os ydych yn gweld pryfed glas ar yr ymledyddion (neu goesynnau) yn hytrach na'r dail, yna cyfrifwch nhw yno yn lle hynny.

Amcangyfrif y Nifer o Bryfed Glas

Ar bob un o'r pedair deilen amcangyfrifwch y niferoedd gan ddefnyddio'r categorïau isod:

- Dim pryf glas
- 1-10 pryf glas ar bob planhigyn
- 10- 25 pryf glas ar bob planhigyn
- 25- 50 pryf glas ar bob planhigyn
- >50 pryf glas ar bob planhigyn

Ffigur 4. Enghraifft o sut y mae pryfed gleision yn cael eu cyfrif

Cliciwch yma i ddarllen taflen wybodaeth a gynhyrchwyd ar y pwnc yma.

Defnyddio ffilmiau ffotoddeolus i wella proffidioldeb y salad deiliog a gynhyrchir yng Nghymru

Mae datblygiadau diweddar mewn plastigau ar gyfer twneli plastig wedi cynhyrchu ffilm sy'n gallu addasu'r golau sy'n treiddio drwyddynt, sy'n gallu rheoli nodweddion twf penodol. Ychydig iawn o gynhyrchwyr ar raddfa fach sydd wedi manteisio ar y rhain hyd yma, a hynny'n bennaf oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud. Mae'r prosiect yn edrych ar sut y gallant helpu cynhyrchwyr sy'n tyfu cnydau salad yn bennaf.



Mae canlyniadau cychwynnol o 2020 wedi dangos bod mathau letys Lollo yn tyfu'n wahanol o dan y gwahanol fathau o blastig, gyda mwy o bwysau masnachol o dan y ffilmiau a oedd yn atal ac yn gwasgaru golau uwchfioled. Bydd hyn yn cael ei asesu eto yn 2021 i weld a yw'r tueddiad yn parhau. Nodwyd hefyd bod y lliwiau ar eu gwannaf po uchaf oedd y pwysau gwerthu, a bydd yr arbrawf hwn hefyd yn cael ei ailadrodd i weld a oes cyfaddawd i'w wneud am gynhyrchu mwy.

Ffigur 5. Enghraifft o dwnel wrth gynaeafu. Dyluniwyd y twneli gydag ochrau sy'n agor er mwyn caniatáu mynediad ar gyfer dyfrio a chynaeafu.

Mentor

1 CYFLE GARDDWRIAETH AR GAEL



7 CEISIWR YN CHWILIO AM GYFLEOEDD GARDDWRIAETH



Rhaglen Fentora

58 GWEITHIWR GARDDWRIAETH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA



15 O'R RHAIN YN YMWNEUD Â GWINWYDDIAETH

63 GWEITHIWR GARDDWRIAETH YN CAEL EU MENTORA AR HYN O BRYD

11% O BOB UN SY'N CAEL EI FENTORA

Mae'r pynciau a drafodwyd hyd yma yn cynnwys:

Cadw gwenyn 	Gwinwyddiaeth 
Tyfu llysiau 	Arallgyfeirio i arddwriaeth 

Agrigôp

41 CYNHALIYD CYFARFOD YN YMWNEUD Â'R SECTOR GARDDWRIAETH

2 MAE GRŴP GARDDWRIAETH NEWYDD YN CAEL EU SEFYDLU

Grŵp casglu ffrwythau/llysiau eich hunain

Mae gan aelodau'r grŵp yma ddiddordeb datblygu mentrau newydd a phresennol ar gyfer pigo ffrwythau/llysiau eich hunain ar eu ffermydd. Mae rhai ohonynt eisoes yn dyfwr profiadol ac eisau ehangu, ac eraill yn newydd i'r maes sy'n datblygu mentrau newydd. Bydd y cyfuniad o wybodaeth a phrofiad o fewn y grŵp yn helpu'r broses o drosglwyddo gwybodaeth o fewn y grŵp. Bydd cyfuniad o gyfarfodydd technegol, busnes a marchnata i helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yn y meysydd hyn.


Grŵp Tyfu Llysiau

Mae aelodau'r grŵp hwn yn awyddus i ddod yn fwy hunangynhaliol trwy dyfu eu llysiau eu hunain. Ychydig iawn o brofiad sydd gan y mwyafrif, os o gwbl, ac felly maen nhw'n newydd ddyfodiaid i'r sector garddwriaeth. Y prif nod yw dod yn fwy hunangynhaliol, ond mae'n bosibl y bydd rhai aelodau'n mentro i werthu llysiau dros ben yn fasnachol os bydd y cyfle'n codi. Mae'r grŵp yn gobeithio cynnal cyfuniad o gyfarfodydd digidol ac wyneb i wyneb.



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfanswm o 615 achos o hyfforddiant wedi cael eu darparu. O'r rhain, roedd 16 ohonynt yn dod o fusnesau a oedd yn cynnwys Garddwriaeth fel prif sector neu is-sector.

Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori:




Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

Cynllunio a datblygu busnes 	5
Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Llaw (PA6) 	1

Nifer yr unigolion a hyfforddwyd:

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn y sector Garddwriaeth:

AMAETH-FFERYLLIAETH CENNIN PEDR A CHLEFYD ALZHEIMER 

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.